

# Papur Pawb

Pris: 50c

Ebrill 2011

Rhif 368



Pedair gwobr gyntaf yn Eisteddfod yr Urdd Sir Ceredigion – t5

tud 3

Pobl a Phethe

tud 4/5

Ysgolion

tud 9

Sbec ar S4C

tud 12


Chwaraeon

## Diwrnod mawr i Bêl-droedwyr Tal-y-Bont

Roedd dydd Sadwrn 2 Ebrill yn ddiwrnod mawr i bêl-droedwyr hen ac ifanc o ddalgylch Tal-y-bont wrth i'r maes pêl-droed newydd, Cae'r Odyn Galch, gael ei agor yn swyddogol gan y Gweinidog Cefn Gwlad, Elin Jones. Cyn y gêm gwpan yn erbyn Aberdyfi, cynhaliwyd seremoni fechan ar y cae, dan arweiniad y Cynghorydd Ellen ap Gwynn a ddiolchodd i'r rhai a fu'n gyfrifol am wireddu'r freuddwyd o ddarparu cyfleusterau addas i Glwb Ieuencid Tal-y-bont a Chlwb Tal-y-bont, sy'n chwarae yng Nghynghrair Aberystwyth a'r cylch. Mae gan y Clwb Ieuencid dros 90 o blant a phobl ifanc yn chwarae i dimau mewn cynghreiriau lleol ac o gartrefi lleol daw holl aelodau tîm yr oedolion. Mae'r Gymdeithas sy'n gyfrifol am y maes yn ddiolchgar i'r perchennog Ioan Beechey, Llety Llwyd, am gael rhentu'r cae, ac i Gyngor Sir Ceredigion, cynghorau cymuned Llangynfelyn a Cheulanamaesmawr, a Chronfa Leri am eu cefnogaeth hael.

Wrth agor y maes, canmolwyd ymdrechion trigolion yr ardal gan Elin Jones a dymunwyd yn dda i'r tîmau sy'n defnyddio'r cyfleusterau. Cyflwynwyd tusw o gennin pedr iddi gan Dylan Wyn Benjamin.

Ysbrydolwyd bechgyn Tal-y-bont i chwarae eu gêm orau y tymor hwn yn erbyn y tîm sydd ar frig Adran Gyntaf y Cynghrair, Aberdyfi, yng nghystadleuaeth Cwpan y Cynghrair. Gan ddiwynnu ar amddiffyn cadarn ac ymosodiadau pwrpasol rhoddwyd gêm a hanner i'r bechgyn o Feirion. Dangoswyd ysbryd di-ildio wedi i Aberdyfi fynd ar y blaen 2-0 a tharodd Tal-y-bont yn ôl gyda goliau gwych gan David Griffiths a James Fox i unioni'r sgôr. Am gyfnod, rhoddwyd pwysau aruthrol ar amddiffyn Aberdyfi ond yn anffodus sgoriodd Aberdyfi gyda tharan o ergyd ac erbyn y diwedd roedd cryfder Aberdyfi yn ddigon i sicrhau buddugoliaeth 4-2. Serch hynny, barn y gwylwyr a'r rheolwr Anthony Southgate oedd fod y bechgyn wedi rhoi o'u gorau ac i'r perfformiad fod yn un calonogol ar gyfer y dyfodol.



Elin Jones, Gweinidog Materion Gwledig yn agor cae pêl-droed Cae'r Odyn Galch gyda'r Cynghorydd Ellen ap Gwynn, Cadeirydd y Pwyllgor

Y noson honno, cynhaliwyd cystadleuaeth ddartiau yn y Llew Gwyn i godi arian ar gyfer y maes. Rhannwyd dros ddeugain o gystadleuwyr yn barau a'r wobwr ar ddiwedd y noson fyddai ennill Cwpan Papur Pawb, hen dlws a gedwir yn y Llew Gwyn na fu cystadlu amdano ers deng mlynedd ar hugain. Y buddugwyr oedd Mark Ebenezer a Julian Thomas a chodwyd dros £200 i goffrau Cymdeithas Cae'r Odyn Galch.

### Bodlon – ar y Cyfan

Mae arolwg yn nalgylch Papur Pawb yn dangos fod gwylwyr yn gymharol fodlon ar raglenni S4C. Dosbarthwyd holiadur i gartrefi ar draws ardal y papur gan geisio sicrhau dosraniad teg o ran wryw/benyw, oedran ac ystyriaethau cymdeithasol. Yn gyffredinol roedd yr ymateb i allbwn y sianel yn bositif gyda'r gwylwyr yn hoffi cyfresi drama megis Pen Talar a darllediadau o'r 'Steddod a'r Sioe Fawr. Doedd rhaglenni steil bywyd fel Sioe'r Tŷ a Doctor Doctor ddim mor boblogaidd. Rhoddwyd cyfle i gyflwyno sylwadau ac yma gwelir y cwynion a leisiwyd sawl gwaith - prinder rhaglenni comedi, gormod o ail-adrodd a gor bwyslais ar newyddion tramor ar draul newyddion Cymru.

Erbyn hyn mae hynt a helynt S4C bron fel rhaglen deledu ei hun - mwya'r piti. Roedd cynnal yr arolwg yn sicr yn werth chweil ac mae'r canlyniadau llawn ar dudalen 9.

## Papur Pawb

<b>Golygydd Cyffredinol:</b>	Geraint Evans Garnwen, Tal-y-bont, Ceredigion. post@garnwen.org.uk Cysylltwch â golygyddion y mis.	<b>(01970) 832473</b>
<b>Tynnu lluniau:</b>		
<b>Bont-goch:</b>	<b>GOHEBYDDION LLEOL</b> Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch	<b>832566</b>
<b>Parsel Henlllys:</b>	Dilys Morgan, Alltgoch	<b>832498</b>
<b>Eglwysfach:</b>	Wendy Fuller, Pandy, Ffwrnais	<b>(01654) 781312</b>
<b>Taliesin:</b>	Siân Saunders, Is y Coed, Taliesin	<b>832230</b>
<b>Tal-y-bont:</b>	Aileen Williams, Maesmeillion	<b>832438</b>
<b>Tre'r Ddôl:</b>	Kathleen Richards, Y Bryn	<b>832201</b>
	Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r Ddôl	<b>832429</b>
<b>Maes y Deri:</b>	Janet Evans, Cefngweiriog	<b>(01654) 781260</b>
	Eirlys Jones, 91 Maes y Deri	<b>832483</b>
<b>Cadeirydd:</b>	<b>CYMDEITHAS PAPUR PAWB</b> Geraint Pugh, Dôl Pistyll	<b>832433</b>
<b>Is-gadeirydd:</b>	Arthur Dafis, Murmawr, Tal-y-bont	
<b>Ysgrifennydd:</b>	Sian Pugh, Dôl Pistyll	<b>832433</b>
<b>Trysorydd:</b>	Gwyn Jenkins, Maes Gwyn, Tal-y-bont	<b>832560</b>
<b>Aelodaeth:</b>	Glenys Edwards, Cartrefle, Tal-y-bont	<b>832442</b>
<b>Hysbysebion:</b>	Wendy Fuller, Pandy, Ffwrnais	<b>(01654) 781312</b>
<b>Plygu:</b>	Gwenllïan Parry Jones, Lyn Hammonds	
<b>Dosbarthwyr:</b>	Enid Gruffudd, Susan Lewis, Gwenllïan Parry Jones, Bloddyn Huws (Tanysgrifiadau)	

Cyhoeddiad gan Gymdeithas Papur Pawb gyda chymorth  
Cyngor Celfyddydau Cymru - Bwrdd Gorllewin, a Bwrdd yr Iaith Gymraeg

## Clwb Nos Wener

**Jochen Eistentrant**  
**a'i Driawd Jazz**  
**Cymraeg**  
15 Ebrill  
Llew Gwyn 8.30  
Tocynnau £6

**ANGEN**  
**Anifeiliaid Tew**  
**(i'w lladd mewn**  
**lladd-dy lleol)**

Cysylltwch â Tegwyn Lewis  
Capel Bangor 880627

## CYLCH MEITHRIN TAL-Y-BONT Helfa Drysor Pasg

Dydd Sadwrn  
23/4/11, 2.00yp  
I gychwyn o'r Neuadd Goffa  
Prynhawn coffi i ddilyn  
Cost £2 y plentyn  
£1 i oedolion (gan gynnwys  
diod a chacen)

Stondin gacennau  
Raffl  
Tê a choffi  
Pentio wynebau  
Anifeiliaid anwes (yn y ffald)

## Gerddi Ar Agor LLWYNCELYN

Glandyfi  
Machynlleth

Dydd Sul 8 Mai  
12-5 o'r gloch  
planhigion ar werth  
Mynediad £3.50  
Plant am ddim

## Afiaith

Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol  
Prydlon • Personol

Martin Davis  
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLLETH  
Pawys SY20 8JG Cymru

Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

## Dyddiadur

### EBRILL

- 10 Bethel** – 5.00 – Gweinidog  
**Nasareth** – 2.00 – Beti Griffiths  
**Rehoboth** – 10.00 – Bugail (C)
- 12 Cyfarfod Chworiydd**  
**Rehoboth** Blodwen Griffiths  
Ysbyty Ystwyth
- 13 Sefydliad y Neuadd**  
**Horeb P'coch** – 7.00 –  
**Rihyrstal Gymanfa Ganu**
- 14 Sefydliad y Merched** – Neuadd  
– Bryony Swinfen. Swyddog  
Cyswllt Cymunedol Cymdeithas  
Gwarchod Adar
- 15 Clwb Nos Wener** – 8.30 – Llew  
Gwyn. Jochen Eisenstraut a'r  
Driawd Jazz
- 17 Bethel** – 10.00 – Beti Griffiths  
**Nasareth** – Uno ym Methel  
**Rehoboth** – 2.00 – Parch Ifan  
Mason Davies
- 18 Cyngor Cymuned**  
**Ceulanamaesmawr**  
**Merched y Wawr** – 7.30 – Edna  
Griffiths Bonedau Brithdir
- 20 Garn Bow Street** – 7.00 –  
**Rihyrstal Gymanfa Ganu**
- 22 Bethel** – 10.00 – Gweinidog (C)
- 24 Bethel** – 10.00 – Parch John  
Gwilym Jones (C)  
2.00 – Cwrdd Plant  
**Nasareth** – Uno ym Methel  
**Rehoboth** – Oedfa Basg yr  
Ofalaeth

### MAI

- 1 Bethel** – 5.00 – Gweinidog  
**Nasareth** 10.00 – Bugail (C)  
**Rehoboth** – 5.00 – Bugail

- 3 Sefydliad y Merched Taliesin**  
yn y Llan-fach am 7.30pm.  
Gwaith yr Archifydd gan Mair  
Humphreys
- 4 Seion Baker St Aberystwyth** –  
7.00 – **Rihyrstal Gymanfa Ganu**
- 8 Bethel, Nasareth a Rehoboth** –  
Gymanfa Ganu Seion Baker St  
Aberystwyth  
10.00 Oedfa Blant –  
5.30 – Oedolion
- 10 Cyfarfod Chworiydd**  
**Rehoboth.** Ymweld â'r Llyfrgell  
Genedlaethol (Ffilmiau a the  
prynhawn)

Os am gynnwys manylion am  
weithgareddau eich mudiad neu'ch  
sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech  
anfon y manylion llawn at Glenys  
Edwards, Cartrefle, Tal-y-bont  
(01970 832442) o leiaf ddeng niwrnod  
cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

Noddir gan  
Lywodraeth  
Cynulliad Cymru



Cydnabyddir cefnogaeth  
Bwrdd yr Iaith Gymraeg  
i'r cyhoeddiad hwn



**BWRDD YR IAITH  
GYMRAEG • WELSH  
LANGUAGE BOARD**

Golygyddion y rhifyn hwn oedd  
Rhian a Catrin gyda Ceri'n dylunio.  
Golygyddion y rhifyn nesaf fydd  
Robat ac Enid 832718;  
Robat@ylofa.com  
Dylai'r deunydd fod yn llaw'r  
golygyddion erbyn dydd Gwener  
6 Mai a bydd y papur ar werth  
ddydd Gwener 13 Mai.

**HUW  
LEWIS**

**M.O.T.  
CENTRE**

**Teiars**  
**Aliniad Olwyn**  
**Ecsôsts**  
**Batris**  
**Brêcs**  
**Hongiad**  
**Bar tynnu**  
**Gwasanaeth**  
**MOT**

**HUW  
LEWIS**

**TYRES**

Glanyrafon

Rhodfa'r Parc

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni  
drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.  
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan  
**ALIGNMYCAR.CO.UK**  
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

**HUWLEWISTYRES.COM**



**BFGoodrich**

**KUMHO TYRES**

**Ffôn 01970 636774**

## Cofiwch ymweld â gwefan Papur Pawb

Gwybodaeth am y papur, ei hanes a manylion cysylltu

### Hefyd:

- Papur Pawb Sain – i'r rhai sydd â golwg diffygiol
- Tabl amseroedd bysiau yn yr ardal
- Ôl rifynnau'r papur

Noddyd y wefan hon gan:

**Anthony Motors**  
Volkswagen



**papurpawb.com**

## Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddiffuant gyda Linda a Ron Roberts, Hafodty, Tal-y-bont, Kevin, Derek a'u teuluoedd yn eu profedigaeth drist o golli Brian.

Cydymdeimlwn â theulu Llwynglas, bu farw Emrys ewythr Alun a'r olaf o'r genhedlaeth honno o blant Llwynglas.

Anfonwn ein cydymdeimlad cywir at Glyn Harker a'r teulu a Heledd a Mark Bradley ar farwolaeth chwaer Heledd sef Kathleen, priod Thomas Smith gynt o Gwelfor, Tal-y-bont.

Trist oedd clywed am farwolaeth Wyn Trepte, gynt o Lorelay, yn ei gartref newydd yn Ffrainc. Cydymdeimlwn â'i briod a'i fab yn eu colled.

Cydymdeimlwn gyda'r Parch a Mrs Richard Lewis a Rheinalt, Bow Street yn ei profedigaeth o golli tad Richard yn ddiweddar.

## Gwellhad Buan

Dymunwn wellhad buan i Mair Griffiths, Nantddu ar ôl cael triniaeth yn Ysbyty Bronglais yn ddiweddar. Mae'n siŵr fod ymweliad ei hwyres fach newydd wedi rhoi boddhad mawr iddi.

## Pen-blwyddi Arbennig

Pen-blwydd hapus a llongyfarchiadau i Arwel West ar ei ben-blwydd yn 60 oed yn ddiweddar ac i Heulwen Astley, Siop Spar ar ei phen-blwydd hithau yn 50 oed. Gobeithio i chi fwynhau'r dathlu!



## Pen-blwydd Hapus 90 oed

Aelodau Cangen Sefydliad y Merched Taliesin yn dathlu pen-blwydd sefydlu'r gangen yn 90 oed yn Llan-fach. Mae'r gangen gyda'r hynaf yn y sir gan fod Ffederasiwn Ceredigion yn dathlu'r 90 eleni hefyd. Gwelir Ann Jones, Llywydd y gangen yn torri'r gacen ben-blwydd.

# Pobl a Phethe



## Priodas Ruddem

Llongyfarchiadau mawr a phob dymuniad da i Brian a Beti Wyn, Rhos, Taliesin ar ddathlu eu Priodas Ruddem ar 10 Ebrill. Fe'u priodwyd yn Nghapel Nonni, Llanllwni ar ddydd Sadwrn y Pasg gyda thad Beti Wyn, y diweddar Barchedig Owen Williams, yn gwasanaethu.

Gwnaethant eu cartref cyntaf ym Mhontypridd cyn symud i Benrhyn-coch yn 1975 pryd y daeth Brian i Ysgol Rhydypennau. Maent wedi ymgartrefi yn Rhos ers 31 o flynyddoedd bellach ac erbyn hyn ymwynhau ymdddeoliad hapus yn helpu i ofalu am yr wyron bach yng Nghaerdydd a Chricieth.

## Afancod yng Nghwm Einion

Ar ddiwedd y haf mi fydd afancod i'w gweld ym Mlaen Einion, Cwm Einion. Mae prosiect "Coedwig Gwyllt" wedi cael grant i adeiladu ffens a chartref ar gyfer yr anifeiliad. Fe fydd gwarchodfa (viewing hide) hefyd er mwyn gweld yr afancod.

## Dymuniadau Gorau

Dymuniadau gorau i Eryl Foulkes, Y Romans, Taliesin, sy'n derbyn triniaeth yn Ysbyty Treforys ar hyn o bryd.

## Pen-blwydd Hapus

Pen-blwydd Hapus hwyr i Raymond Smith, Dyfi Villa, a fu'n dathlu pen-blwydd arbennig ar 27 Mawrth.

## Bont-goch: mynd a dod

Bellach mae Jennifer Drage a Jon Evans wedi ymgartrefu ar safle'r Hen Ysgoldy tra'n adfer yr adeilad i'w hen ogoniant. Dymunwn yn dda iddynt gyda'r gwaith ac estynnwn groeso cynnes iddynt i'n plith. Eisoes enwyd yr adeilad yn Hen Ysgol yr Eglwys, ac mae'n dda gweld yr enw Cymraeg yn cael ei barchu a'i barhau.

Dymunwn yn dda hefyd i Mr Mitchell, Tanybwllch, Bont-goch sydd wedi symud yn ddiweddar i ardal Bryste. Edrychwn ymlaen hefyd at groesawu'r teulu ifanc a fydd yn ymgartefu yn Nhanybwllch maes o law.

## Seland Newydd

Mae Alex Walters merch Carol Bryan, Hafod y Garth, Ffwrnais wedi mynd i Seland Newydd i helpu gyda phrosiect yn dilyn y daeargryn. Mae Alex yn Beirianydd Sifil yng Nghaerdydd ac mae wedi gwirfoddoli i helpu am 5 wythnos.

## Gwellhad Buan

Dymunwn wellhad buan i Keith Evans, Pen-y-graig, Bont-goch a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar am gyfnod byr.

## Ymdddeoliad

Dymuniadau gorau i Phil Clarke, Tŷ Rhosyn, Bont-goch ar ei ymdddeoliad diweddar.

## Ymdddeoliad hapus

Dymunwn ymdddeoliad dedwydd iach i Liz Spencer, Tŷ Manceinion. Byddwn yn gweld eisau dy wyneb siriol ym Meddygfa Padarn Liz!

## Diolch

Byddai Tessa Evans, 15 Maes y Deri, Tal-y-bont, yn dymuno diolch i bawb am y blodau a'r cardiau adeg ei phen-blwydd yn 80 oed.

## Cydymdeimlad

Rydym yn cydymdeimlo'n fawr â Mignon Rowlands, Glanhaul, a'r holl deulu, ar ôl iddi golli ei gŵr Dafydd Rowlands ar 13 Mawrth. Colled fawr i'r fro gyfan.

Hefyd, rydym yn cydymdeimlo â Raymond a Josie Smith, Dyfi Villa, a'r teulu i gyd, ar ôl colli eu chwaer-yng-nghyfraith Kath yn ddiweddar a oedd yn byw yn yr Alban.

Cydymdeimlwn a Nia Williams, 66 Maes y Deri, ar gollu ei thad, ac i Ffion a Siwan o golli tadcu, sef Mr Gwilym Evans, Penparcau, a bu farw ddechrau mis Mawrth.

## Y Fframdy

Mae'r gweithdy yn darparu gwasanaeth fframio dychmygus o'r safon uchaf.

Cewch ddeusio amrediad eang o siapiau gosod a fframiau.

Bydd y fframdy'n gallu darparu ar gyfer unrhyw anghenion unigol.

Y Fframdy, Glanceri, Y Borth, Ceredigion SY24 5JA  
Ffôn: 01970 871042  
Symudol: 07773 846659

### Ysgol Llangynfelyn



Diwrnod Iwerddon



Diwrnod Trwyn Coch



Nansi Dingle



Nina Davies

### Ysgol Tal-y-Bont



Parti deulais



Ensemble offerynnol



Parti llefaru



Catrin Huws

Seren Taylor

Glain Llwyd Davies



Sul y mamau urdd



Diwrnod Trwyn Coch

# Ysgol Llangynfelyn

## Eisteddfod yr Urdd

Llongyfarchiadau i Nansi Dingle am ddod yn 3ydd yn y gystadleuaeth offerynnau llinynnol i blant Blwyddyn 6 ac iau yn Eisteddfod yr Urdd Ardal Aberystwyth. Bu Nansi, Isabel Hughes, Tobia Heathfield a Mairéad Jones yn cystadlu yn y gystadleuaeth Ensemble hefyd. Diolchwn i Jenny Dingle a Helen Hicks am eu hyfforddi.

Llongyfarchiadau hefyd i Nina Davies am ddod yn 1af yn y gystadleuaeth dylunio i blant Blwyddyn 5 a 6. Bydd llun Nina yn cynrychioli Ceredigion yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Abertawe.

## Lefel 5 Hylendid Bwyd

Llongyfarchiadau i Mrs Lisa Byrne ein coggyddes am ennill Lefel 5 yn Sgôr Hylendid Bwyd yr Uned Diogelwch Bwyd. Dyma'r sgôr uchaf y gall sefydliad ennill am safonau glendid. Rydym yn gwerthfawrogi ei holl gwaith caled yn coginio i'r plant a'r staff yn yr ysgol.

## Diwrnod Iwerddon

Ar Ddiwrnod San Padrig ar y 17eg o Fawrth, cafwyd Diwrnod Iwerddon yn yr ysgol. Gwisgodd y plant ddillad gwyrdd, gwyn ac oren neu wisgoedd Gwyddelig. Bu plant y Cyfnod Sylfaen yn addurno bisgedi gan ddefnyddio lliwiau'r faner Wyddelig tra bu phlant Cyfnod Allweddol 2 yn gwneud bara soda. Daeth Mrs Teresa Sweeney Jones, sy'n wreiddiol o Wexford, Iwerddon i'r ysgol i siarad gyda'r plant am Iwerddon a San Padrig. Dysgodd y plant lawer am Iwerddon a diolchwn i Mrs Jones am ei chyflwyniad pwrpasol a diddorol iawn.

## Diwrnod Trwyn Coch

Cafwyd hwyl yn yr ysgol ar Ddiwrnod Trwyn Coch ar y 18fed o Fawrth. Thema'r diwrnod oedd 'Gwallt Gwirion'. Daeth y plant i'r ysgol gyda'u gwallt yn bigog, cyrliog, byr, hir a gwirion iawn. Casglwyd £60 tuag at 'Comic Relief' drwy werthu cacennau a diod. Rhoddwyd gwobrau o siocled Masnach Deg i'r gwallt mwyaf gwirion. Diolchwn i Mrs Eiriona Metcalfe am ddod i'r ysgol i feirniadu'r gwallt gwirion. Tybed a fedrwyd chi weld Mrs Metcalfe yng nghanol yr holl wallt ac wynebau gwirion yn y llun?

## Pythefnos Masnach Deg

Bu plant yr ysgol yn brysur yn dathlu Pythefnos Masnach Deg ar ddechrau'r mis. Buont yn addurno darnau o gotwm Masnach Deg i wneud 'bunting' hir i gymeryd rhan yn ymgyrch Masnach Deg i greu'r 'bunting' hiraf yn y byd. Bu plant y Cyfnod Sylfaen yn coginio gan ddefnyddio cynhwysion Masnach Deg a dysgodd plant Cyfnod Allweddol 2 am daith bananas Masnach Deg o Ynysoedd y Gwynt i'w cartrefi hwy. Mae'r ysgol wedi derbyn baner fawr Masnach Deg gan ein bod wedi llwyddo i gael statws Ysgol Masnach Deg dair gwaith. Gallwch weld y faner ar ein polyn baner is law'r faner Ysgol Eco.

## Cynhadledd Biosffer Dyfi

Aeth plant Dosbarth Miss Davies i CAT yn ddiweddar i gymeryd rhan yng Nghynhadledd Biosffer Dyfi. Cymerodd y plant rhan mewn amryw o weithgareddau wrth iddynt ddysgu am y Biosffer. Uchafbwynt y diwrnod oedd y cinio blasus a goginiwyd gan ddefnyddio cynhwysion lleol a Chymreig.

## Disgo Ysgol

Cafwyd Disgo Ysgol 'lwyddiannus iawn yn dilyn y Diwrnod Trwyn Coch. Bu'r plant yn mwynhau dawnsio a chanu a gwerthwyd losin, creision a diod i'r dawnsyr blinedig. Diolchwn i aelodau'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am drefnu'r noson ac am gefnogaeth brwd y rhieni ar y noson. Diolchwn hefyd i Mr David Byrne am gyfrannu tuag at gost y noson.

# Ysgol Tal-y-Bont

## Eisteddfod yr Urdd

Bu'r mis diwethaf yn llawn bwrlwm unwaith eto, gydag Eisteddfodau'r Urdd yn cadw ni i gyd yn brysur. Unwaith eto gallwn ymfalchïo yn llwyddiant plant yr ysgol yn yr Eisteddfodau lleol a sirol ac roedd hi'n hyfryd i weld cymaint o blant yn cael y cyfle i berfformio'n gyhoeddus wrth gystadlu yn enw'r ysgol. Roedd 16 o blant yn y band, 12 yn y parti deulais, 7 yn y parti llefaru a nifer yn cystadlu'n unigol hefyd. Dyma'r cystadlu a fu:

**Eisteddfod Cylch** – Oisín Pennant, Glain Davies, Heledd Davies, Emily Bradley, Tomos Jenkins, Gerallt Jenkins, Seren Taylor, Leci Taylor a Betsan Siencyn wedi cystadlu yn y rhagbrofion. Dyfarnwyd dwy wobwr gyntaf i Glain Davies a 3ydd i Seren a Leci. Daeth y parti deulais yn ail hefyd.

**Eisteddfod Offerynnol** – Catrin Huws, Seren Taylor, Leci Taylor a Betsan Siencyn. Dyfarnwyd bod Seren yn gyntaf a Betsan yn 3ydd ar yr unawd chwythbrennau, Catrin Huws yn gyntaf ar yr unawd telyn, Catrin, Seren a Betsan yn gyntaf ar yr *ensemble* offerynnol, Seren yn 2il ar yr unawd piano a'r band yn 2il hefyd.

**Eisteddfod Ddawns** – Lili O'Brien a Seren Taylor yn cystadlu a dyfarnwyd y wobwr gyntaf i Seren. Seren yn ail yn yr Eisteddfod Sir.

**Eisteddfod Sir** - Dyfarnwyd bod Seren yn gyntaf ar yr unawd chwythbrennau, Catrin Huws yn gyntaf ar yr unawd telyn, Catrin, Seren a Betsan yn gyntaf ar yr *ensemble* offerynnol a Glain yn gyntaf ar yr unawd cerdd dant i flwyddyn 2 ac iau.

**Eisteddfod Celf a Chrefft** - Dyfarnwyd yr ail wobwr i Siôn Nelmes am ei waith argraffu.

Byddwn yn cystadlu mewn 4 cystadleuaeth ar ddydd Llun yr Eisteddfod Genedlaethol yn Abertawe. Pob hwyl i baw a diolch yn fawr iawn i baw a fu'n ein cynorthwyo gyda'r dysgu a'r hyfforddi hefyd.

## Arad Goch

Derbyniwyd cymorth gwerthfawr iawn gan Mari o Gwmni Theatr Arad Goch i wella sgiliau llafar Cymraeg pob plentyn yn CA2 yn ystod y tymor yma. Roedd y gwaith yn cefnogi cwricwlwm yr ysgol ac yn gyfle gwych i'r plant berfformio cyflwyniadau dramatig i'w gilydd.

## Diwrnod Trwyn Coch

Cafwyd llawer o fwrlwm yn yr ysgol ar ddydd Gwener Mawrth 18. Penderfynwyd y byddai'n gyfle i baw wisgo "gwallt gwirion" ar y diwrnod a chodi arian at yr achos da yr un pryd. Llwyddwyd i godi £80 ar y diwrnod wrth gael diod oer a bwyta cacennau blasus.

## Wyau

Yn dilyn llwyddiant gwerthu wyau soffieir dros y blynyddoedd diwethaf, eleni penderfynwyd cadw ieir bantam yn ardd yr ysgol. Os ydych am brynu wyau blasus, rydym yn gwerthu hanner dwsin am £1. Dyma lun o Dylan Wyn yn perswadio Mr Jones i brynu'r hanner dwsin gyntaf!



## Llun Clawr

Disgyblion Ysgol Gymunedol Tal-y-bont yn ennill pedair gwobr gyntaf yn Eisteddfod yr Urdd Sir Ceredigion. Catrin Huws yn Gyntaf cystadleuaeth Telyn, Seren Powell-Taylor gyda'r wobwr gyntaf yn chwarae'r Fliwt, Glain Llwyd enillydd cyntaf cystadleuaeth y Cerdd Dant, gyda Betsan Siencyn yn un o'r tair yn y llun, enillwyr cystadleuaeth yr Ensemble.



Cyflwynwyd sic eidd am £650 i Janice Petchie a Glan Davies ar ran Sefydliad Prydeinig y Galon gan Mai Leeding, Ellen ap Gwynn, Betty Wyn Davies ac Ann Humphries. Casglwyd yr arian mewn bore coffi a drefnwyd gan Mai yng Nghapel Rehoboth, Taliesin.

## Un Nos Ola Leuad

Profiad braidd yn swreal oedd gweld ciw hir o bobl yn aros i gael mynd i mewn wrth gyrraedd i wylio cynhyrchiad diweddaraf Theatr Bara Caws yn y Neuadd Goffa ar y 15ed o Fawrth, a finne ar ben hynny heb fod ddigon trefnus i archebu tocyn ymlaen llaw. (Diolch byth fod un o ddisgyblion brwd Penweddig heb fedru dod wedi'r cyfan!) Y ddrama dan sylw oedd addasiad diweddaraf o glasur Caradog Prichard *Un Nos Ola Leuad* gan Betsan Llwyd, o waith gwreiddiol John Ogwen a Maureen Rhys.

Nid tasg hawdd dybiaf i ydy mynd ati i greu addasiad o gyfrol mor eiconig ag *Un Nos Ola Leuad* a cheisio creu gwaith sy'n medru sefyll ar ei draed ei hun fel cyfanwaith creadigol, gan efelychu ar yr un pryd yr elfennau arbennig hynny sy'n rhan anatod o wead ac ysbryd y nofel. Adroddir y stori trwy gyfrwng cyfres o atgofion yr adroddwr a hynny heb fod mewn unrhyw drefn cronolegol, tra ei fod ar daith yng ngolau'r lleuad yn nyffryn ei febyd. Trwy gyfrwng ei daith mae gwahanol leoliadau yn ysgogi gwahanol atgofion o'i blentynod.

Cafwyd perfformiadau gafaalgar a grymus gan y cast drwyddi draw, gyda pherfformiadau egniol y tri actor ifanc sef Sion Trystan, Rhodri Siôn ac Arwyn Jones yn denu sylw, yn arbennig yn y golygfeydd dwys a thywyll. Hoeliodd Rhys Richards sylw pawb yn syth o'r dechrau wrth gamu drwy ddrysau cefn y neuadd ac i'r llwyfan – trueni i ni gollir rhywfaint o'r geiriau ar adegau ganddo, yn arbennig mewn darnau mwy tawel. Gan mai chwech aelod oedd yn y cast roedd gofyn i nifer o'r actorion ddyblu cymeriadau ac maent yn haeddu clod am lwyddo i wneud hynny yn syndod o llyfn. Mae Betsan Llwyd i'w chanmol hefyd am greu cynhyrchiad cynnil a chrefftus a thwyllodrus o ddi ffws. Dehonglwyd y ddau amser, sef plentynod y gorffennol a thaith yr adroddwr yn y presennol yn llwyddiannus, gyda'r penderfyniad i gael Rhys Richards a bortreadai'r adroddwr fel oedolyn a Sion Trystan a chwaraeai ran y plentyn ar y llwyfan yr un pryd weithiau yn ddewr ac effeithiol. Gwelwyd set syml a di liw, gyda'r lefelau a'r rhodfa bren o gymorth mawr wrth ddehongli'r stori a'r symud o un olygfa i'r llall.

Mae ymateb cynulleidfa yn ystod ac yn dilyn perfformiad yn fesur eithaf da o lwyddiant unrhyw gynhyrchiad. Yn sicr rwy'n meddwl i gynulleidfa Tal-y-bont gael eu plesio a'u diddanu – yn sicr fe wnes i fwynhau'r perfformiad. Braff oedd gweld y neuadd dan i sang ac edrychwn ymlaen yn frwd at gynhyrchiad nesaf Theatr Bara Caws.

RHE

Siop y Pethe  
Aberystwyth

Llyfrau a Recordiau  
(01970) 617120

**MID WALES STORAGE**

**STORFA CANOLBARTH CYMRU**

STORFA DODREFN

STORFA FUSNES ARCHIFAU

STORFA I FYFYRWYR

PACEDU

**DIOGELWCH BT REDCARE 24 AWR**  
**CCTV**  
**WEDI GYNHESU**  
**CIWBICLAU £10 YR WYTHNOS**

[www.midwalesstorage.co.uk](http://www.midwalesstorage.co.uk)  
Heol Y Doll  
Machynlleth  
SY20 8BQ
Tel 01654 703592

## GOLCHDY LLANBADARN

CYTUNDEB GOLCHI  
GWASANAETH GOLCHI  
DWFES MAWR  
CITS CHWARAEON



**GERAINT JAMES**  
**Ffôn: 01970 612459 Mob: 07967235687**  
 Valrosan, Pwllhobi, Llanbadarn Fawr,  
 Aberystwyth SY23 3SL

## Merched y Wawr, Tal-y-bont

Yn ein cyfarfod ar 21 Mawrth croesawyd y Bnr Rheinallt Llwyd atom i sôn am berthynas iddo, sef Islwyn Ffowc Elis. Cawsom sgwrs hynod ddfyr ganddo a gyda chymorth sleidiau boom yn dilyn bywyd a gyrfa Islwyn o flwyddyn ei eni yn 1924 hyd at ei farw yn 2004. Cyfeirir ato'n aml fel 'tad y nofel Gymraeg', neu'r 'gŵr a lusgodd y nofel Gymraeg i mewn i'r ugeinfed ganrif'. Ei nofel, *Cysgod y Cryman*, enillodd gystadlueaeth Llyfr y Ganrif yn 1999 ar gyfer llyfr Cymraeg mwyaf poblogaidd yr ugeinfed ganrif.

Nid llenyddiaeth oedd ei unig ddawn greadigol. Roedd ganddo ddawn hefyd ym myd cerddoriaeth ac arlunio. Pan ofynnwyd iddo beth a gafodd o lenyddiaeth, atebodd "gollyngdod, dihangfa weithiau, gwefr a gwaie, y pleser pur o hel fy mysedd hyd adnoddau rhyfeddol yr iaith Gymraeg a llawer mwy". Mae'n siŵr y cytunwn i ninnau elwa llawer o ddawn y gŵr addfwyn hwn.

Diolchwyd i Rheinallt gan Carys Briddon. Diana Jones ac Eirlys Jones oedd yng ngofal y tē.

## Sefydliad y Merched, Eglwysfach

I ddathlu Dydd Gŵyl Dewi fe ddangosodd Judith Pearson y DVD o'r ffilm "Sleep Furiously". Mi oedd e'n braf i weld y golygfa yn ardal Trefeurig ac adnabod rhai yn cymrhod rhan. Mi oedd bara brith a chacennau cri i ddilyn. Diolch i Mona Rowlands a Barbara Adams am wneud y lluniau. Erbyn y cyfarfod nesaf mae Barbara a Mona yn mynd ar gwrs yng Ngholeg Denman, Sir Rydychen gan ddefnyddio ein bwrsari. Teitl y cwrs yw "Trefi marchnad".

## Sefydliad y Merched Taliesin

Aeth cyfarfod Ionawr â ni am daith drwy luniau, creiriau a sgwrs i wlad Fietnam lle bu Beti Wyn a Brian, Rhos, am wyliau fis Mai y llynedd. Soniwyd am y llefydd diddorol y buont yn ymweld – o Hanoi yn y Gogledd, drwy'r canolbarth i ymweld â safleoedd hanesyddol y wlad ac yna i lawr i'r De i'r brifddinas Ho Chi Minh a theithio ar hyd yr afon Mehong ac ymweld â thwneli Cu Chi a ddefnyddiwyd yn ystod y rhyfel chwarter canrif yn ôl. Roedd yn hynod ddiddorol i weld y ffordd o fyw bresennol, y dirwedd, y crefftau, ynghyd â hanes terfysgylid y wlad.

Daeth nifer dda o'r aelodau i gyfarfod fis Chwefror â'r gŵr gwadd, Dewi Williams o Gyngor Sir Ceredigion yn sôn am Ailgylchu. Esboniodd yn hynod ddiddorol y newidiadau sydd wedi digwydd am y ffyrdd o gasglu sbwriel er mwyn ailgylchu cymaint ag sy'n bosibl. Cafwyd cyfle i holi nifer o gwestiynau ac i godi pwyntiau oedd yn peri gofod yn lleol.

Yn ôl yr arfer ar y 1af o fis Mawrth, boom yn dathlu Gŵyl Ddewi gyda Chawl a tharten afal a baratowyd gan yr aelodau. Cawsom sgwrs hynod wybodus gan ein gŵr gwadd, Cyril Baker o Dal-y-bont, yn sôn yn ddiddorol dros ben am hanes Aur Clogau. Daeth â nifer o dylsau hardd ganddo i'r aelodau i'w gweld a'u hedmygu. Diolchwyd iddo gan ein llywydd Ann Jones ac yna bu sgwrsio a threfnu ein cyfarfod nesa sef dathliad pen-blwydd y gangen yn 90 oed ar y 5ed Ebrill yn Llan-fach.

## Cronfa Eleri 2010

Cyhoeddwyd y rownd ddiweddaraf o grantiau gan Cronfa Eleri. Eleni, roedd cyfanswm y ceisiadau dros £48,000 – gyda'r arian a oedd ar gael i Bwyllgor y Gronfa gan Gwmni Amgen yn £15,590. Tasg anodd oedd o flaen Pwyllgor y Gronfa felly. Cymeradwywyd awgrymiadau Y Pwyllgor gan Gwmni Amgen i gefnogi 13 o'r ceisiadau. Y rhai a fu'n llwyddianus eleni oedd: Clocsywyr Ceulan; Clwb Hoci Bow Street; Capel y Garn; Cylch Ti a Fi Tal-y-bont; Treftadaeth Llandre; Ysgol Llangynfelyn; Cylch Ti a Fi Llandre; Clwb Cŵl Penrhyncoch; Cylch Meithrin Borth; Cae'r Odyn Galch, Tal-y-bont; Henoed Bow Street; Cyngor Plwyfol Bontgoch Elerch; Eglwys Eglwysfach.

Ers sefydlu'r Gronfa yn 1998, i ddosbarthu arian sy'n deillio o elw fferm wynt Cwmni Amgen yn Mynydd Gorddu, rhoddwyd dros £156,000 i gefnogi achosion a mudiadau lleol. Am ragor o wybodaeth a hanes Y Gronfa gellir ymweld â gwefan Cronfa Eleri ar [www.cronfaeleri.com](http://www.cronfaeleri.com).



Casglwyd £2466.00 gan aelodau C.F.F.I Tal-y-bont tra'n canu carolau cyn y Nadolig a chyflwynwyd £822 i dair elusen wahanol yn ddiweddar sef Mind Cymru, Sefydliad Prydeinig y Galon ac Amibwllans Awyr Cymru. Gwelir yn y Llundain, Dewi Jenkins, Enfyf Evans, Cadeirydd C.F.F.I Cymru, Geraint Jenkins, Arfon Jones, Is-Gadeirydd Cangen Aberystwyth o Sefydliad Prydeinig y Galon, Rhydian Evans, Anne Edwards, Cydlynnydd Cymunedol Amibwllans Awyr Cymru a Mererid James.

## Sioe Tal-y-bont

Cynhaliwyd ein Cyfarfod Blynnyddol nos Lun, 7 Mawrth. Croesawodd y cadeirydd Evan Jenkins bawb a oedd yn bresennol, a chafwyd adroddiad o sioe 2010 a fu'n lwyddiant mawr. Diolchodd i bawb am bob cefnogaeth tra bu'n gadeirydd, a dymunodd yn dda i Elgan Evans wrth iddo ddod i'r gadair. Cadarnhawyd bydd Sioe 2011 yn cael ei chynnal ar ddydd Sadwrn, 27 Awst.

Etholwyd y Swyddogion canlynol am Sioe 2011:

Llywyddion:	Peter a Gwen Manley, Swyn-y-Leri
Cadeirydd:	Elgan Evans, Tynant
Is-Gadeirydd:	Menna Morgan, 4 Dôl Pistyll
Trysorydd:	Howard Ovens, Fronidirion
Ysgrifennyddes Cyffredinol:	Janet Jones, Llwynglas
Ysgrifennyddes Babell:	Dilys Morgan, Alltgoch
Cyfarwyddwyr y Sioe:	Teulu Bryngwyn Mawr, Dole
Rheolwr y Maes:	Emyr Davies, Llety Ifan Hen

Rydym yn cwrdd bod nos Lun cyntaf o'r mis yn y Neuadd Goffa am wyth o'r gloch, ac mae croeso i bawb ymuno â ni.

Janet Jones



## Gwasanaeth Gwybodaeth Ceredigion i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd

- Chwilio am ofal plant?
- Eisiau gwybod sut i fod yn ofalwr/wraig plant?
- Chwilio am weithgareddau plant a phobl ifanc?
- Eisiau hysbysebu gweithgareddau plant a phobl ifanc?

**Cysylltwch â ni am fanylion pellach**

**Ffôn/Phone: 01545 574187**

**E-bost: [cis@ceredigion.gov.uk](mailto:cis@ceredigion.gov.uk)  
Gwefan: <http://cis.ceredigion.gov.uk>**

Neuadd Cyngor Ceredigion  
Penmorfa, Aberaeron,  
Ceredigion, SA46 0PA

# Trip i Ganada

*Mae Ffermwy'r Ifanc Cymru yn cynnig teithiau tramor i aelodau i bob cwr o'r byd, ac yn Nhachwedd 2009 enillais y cyfle i fynd i Ganada a chynrychioli Cymru i gael blas ar fywyd aelodau o fudiad 'Junior Farmers of Ontario'. Dyma ychydig o fy hanes i o'r daith yn ystod Tachwedd 2010:*

Wedi blwyddyn gyfan o aros ar ôl ennill y cyfle i fynd ar daith tramor i Ganada, cafwyd taith o Gwmudw lan i faes awy'r Manceinion ar fore gwlyb iawn. 'Roedd dwy ohonom, Tracy Evans o Glwb Pontsiân a minnau yn mynd am gyfnod o dair wythnos a hanner at aelodau *Junior Farmers of Ontario*. Roeddwn wedi paratoi am oerfel dychrynlyd, ac yn gwisgo pump haenen o ddillad trwchus a thermal ond roedd hi mor gynnes yno, a bu rhaid dadwisgo a chario sawl dilledyn!

Ein llety cyntaf oedd Brampton sydd ond chwarter awr o faes awy'r Toronto, a theulu Johnston oedd yn ein gwsteio am bron i wythnos. Roedd ei fferm deuluol yn medru cynnal pedwar aelod, tra'n godro dim ond 30 o wartheg. Roedd y fferm wrth ymyl priffordd 401, a gan bod yr hewl mor brysus, roedd rhaid cael set o oleuadau traffic ar ben y lôn! Ein trip cyntaf oedd ymweld â'r *Royal Fair* sef sioe yn union fel y Sioe Aeaf yma, ond ei bod yn fwy ym mhob ffordd – yn para pythefnos ac i gyd o dan yr un to! Ar ddiwrnod y sioe laeth aethom ni yno, sef un diwrnod cyfan wedi'i neilltuo i'r gwartheg godro. Tra'n cerdded o amgylch y sioe, clywsom bwt o Gymraeg, a daeth cwpwl draw ato ni i ddweud eu hanes. Roedd y ddau wedi ymfudo mas i Ganada ers 11 mlynedd i greu dyfodol gwell i'w teulu – roedd hi'n werth gwisgo siwmpwr Sioe'r Cardis y diwrnod hwnnw! Cafwyd cyfle i ymuno yn nathliadau enillydd y diwrnod efo'r hwyr - weden ni bod e'n hapus iawn efo'i ganlyniad!

Tra'n aros yn Toronto cawsom y cyfle i fod yn dwristiaid gan ymweld â'r CN Tower – sy'n anghredadwy o uchel a chael taith o amgylch y ddinas fawr sy'n cael ei defnyddio fel set arall i Efrog Newydd mewn nifer o ffilmiau. Bu cyfle i fynd i weld *Niagara Falls*, ond yn anffodus roedd yn ddiwrnod niwlog a gwyntog. Wn i ddim pam aethpwyd a ni i dair, ie TAIR gwindy yn arbenigo mewn gwin rhew (*ice wine*). Gan bod y tywydd mor eithafol yn ystod y gaeaf yng Nghanada, mae'r dŵr yn rhewi yn y ffrwyth gan adael sudd melys sy'n creu gwin melys iawn!

Trefnwyd triapiau i wahanol ffermydd i weld eu hanifeiliaid, eu dulliau o amaethu, a'u cyfarpar gan weld gwartheg, defaid, moch, geifr, ceffylau, iear a thwrcis. Roedd y ffermydd godro mor lân, ac roedd yn arferiad i glymu cynffonau'r buchod lan a chael crib fetel wedi'i chysylltu â sioc trydan i'w cadw i sefyll yn syth, fel eu bod yn domi'n syth i'r llawr. Roedd y diwydiant moch ac adar wedi profi'r afiechydon diweddar a'r ffermwy'r o dan nifer o reolau llym. Roedd rhaid cael cawod wrth fynd fewn a dod mas o'r siediau moch er enghraifft a gwisgo dillad diheintus ac er mwyn ymweld â'r twrcis roedd rhaid llenwi ffurflen a gwisgo esgidiau plastig.

Fel aelodau o'r mudiad Ffermwy'r Ifanc rydym yn gyfarwydd gyda'r Rali a'r Eisteddfod, ond roedd y *Canadians* yn cyfuno'r ddau brofiad gyda'u gilydd mewn penwythnos o'r enw *Sing Swing*. Tracy a fi oedd cynrychiolwyr Cymru gan gystadlu ar adeiladu eitem mas o lego a chael cam gan y beirniad dwi'n siwr! Ac yna'n hollol anghonfensiynol, cystadlu fel deuawd yn ddi-gyfeiliant a chael y gynulleidfa i ymuno yng nghyngân *Bing-Bong!* Maent yn cynnal cinio gyda'r nos, a gan ein bod yn ymwelwyr tramor, cyflwynwyd bathodynau i ni goffau'r trip.

I ddangos ein gwerthfawrogiad tuag at y teuluoedd fu'n ein gwsteio

ac yn gofalu amdanom, penderfynom ddod a 'chydig o Gymru iddi nhw felly buom yn coginio cawl a *Welsh cakes!*

Fyddwch chi'n falch clywed bod pawb dal yn fyw, ac yn canmol prydiau bwyd y Cymry.

Roedd gennym wythnos rydd i drafaelau ar ddiwedd ein trip, ac fe ddefnyddiom y cyfle i logi car a gyrru o dalaith Ontario i Quebec, a galw heibio sawl ffrind ar hyd y ffordd. Roedd hi'n tipyn o gamp i yrru car ar briffordd a chanddi 14 lôn a gyrru mewn i ddinas fel Montreal! Heb sôn am yrru trwy storm eira – gellir deall pam fod y cerbydau'n cadw mor dynn at ei gilydd....achos welwch chi ddim o'r traciau ar y ffordd fel arall!

Rhaid cyfaddef fod y bobl yn wych ac mor groesawgar, ac yn ein mabwysiadu ni fewn i'w teuluoedd, eu grŵp ffrindiau a'u cyd-aelodau. Gwelwyd bod y diwydiant amaethyddol yn cael ei gynnal gan y llywodraeth yno. Trwy gydol ein hymwelriad, bŵm yn sefyll efo teuluoedd ifanc, y rhan helaeth ohonynt yn eu ugeiniau hwyr ac ar fin cymryd y fferm drosto o'u rhieni oedd yn awyddus i drosglwyddo'r cyfrifoldeb ac ymdeol yn weddol ifanc. Fues i'n ddigon ffodus i osgoi'r tywydd gwael gafodd pawb nôl yng Nghymru, ac yn ddigon llwus i gyrraedd adre cyn i'r tywydd garw adael pedair troedfedd o eira yn yr ardal ble fuon ni'n ymweld â hi yng Nghanada.

Profiad anhygoel a chyfle dwi'n argymhell aelodau presennol i fanteisio arno!

*Eleri James*



## Pob hwyl yn Abertawe

Cafodd criw o ddisgyblion uwchradd lleol gryn lwyddiant yn Eisteddfod Sir yr Urdd yn ddiweddar. Cipiodd Sam Ebenezer, Maes-y-felin y wobwr gyntaf am yr Unawd Bechgyn dan 19 oed a'r Ddeuawd Cerdd Dant dan 19 oed i Adrannau.

Mae Carwyn Hughes a Steffan Thomas yn aelodau o Ensemble Blynnydoedd 7, 8 a 9 Penweddig a fydd yn cynrychioli Ceredigion. Fe fydd Elen Ebenezer a Medi Evans hefyd yn rhan o griw Penweddig fydd yn cystadlu ar gystadleuaeth y Ddawns Cyfansoddiad Cymysg o dan 19 oed yn Eisteddfod yr Urdd. Yn sicr mae gan ardal Papur Pawb ddawnsuwr talentog gan y bydd Lois Jones a Elan Elidyr yn cystadlu gyda Phenweddig yn y Grŵp Dawnsio Hip-hop/stryd/digo i rai dan 19 oed. Cafwyd llwyddiant hefyd yn yr adran gwaith llaw gyda Ffion Nelmes yn cipio dwy wobwr gyntaf yng nghystadleuaeth Serameg/Crochenwaith ac am greu Mwgwd neu Byped ar gyfer blynnydoedd 7 a 8.

Pob llwyddiant i'r criw ifanc hyn o'r ardal fydd yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd Abertawe.

**Rhian**  
trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad  
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy

ffôn 832 612  
07835 525 553

**K Hughes**

**Plymio a Gwresogi**

Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi  
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129

07761 917235

**James Memorials**

Am  
GOFBAU ARBENNIG  
BEDDARGRAFFIADAU  
ADNEWYDDU O SAFON  
ARWYDDION AR DAI A  
BUSNESAU

Gofynnwch am bamffled  
rhad ac am ddim

James Memorials  
Vicarage Crossing,  
Llandre, Bow Street  
Ffôn: (01970) 820 111

**CODI Tŷ NEU  
ESTYNIAD?**

Iwan Jones, Technegydd Pensaernïol  
Gellimanwydd, Tal-y-bont, Ceredigion SY24 5HJ  
01970 832760



# Sbec ar S4C

Ers haf 2010 profodd S4C gyfnod cythryblus. Ymddiswyddodd y prif weithredwr a chadeirydd awdurdod y Sianel a chyhoeddwyd mai'r BBC fydd a chyfrifoldeb am ariannu'r gwasanaeth o 2014. Yn sgil y penderfyniad, mae 'na wir bryder y bydd toriadau o 24% yng nghyllid S4C yn arwain at ostyngiad yn nifer ac ansawdd y rhaglenni.

Yng nghanol hyn oll erys y cwestiynau canolog - faint o wyllo sydd ar S4C a beth yw barn y gwylwyr am y rhaglenni? I geisio atebion mewn un ardal dosbarthwyd holiadur i siaradwyr Cymraeg - siaradwyr iaith gyntaf a dysgwyr - yn nalgylch *Papur Pawb*. Dosbarthwyd 80 holiadur gan anelu at ddsoraniad teg o ran wryw/benyw, oedran ac ystyriaethau cymdeithasol. Rhoddwyd wythnos i'r ymatebwyr gwblhau'r holiadur.

## CANFYDDIADAU


Dychwelwyd 71 o holiaduron (89%) sy'n lefel uchel o ymateb. O'r cyfanswm roedd 34 (48%) yn wryw a 37(52%) yn fenyw. Dyma categorïau oedran yr ymatebwyr:

O dan 16	4	sef 6%
16-24	5	7%
25-39	15	21%
40-49	11	15%
50-59	5	7%
60+	31	44%

Gwelir fod y lefel uchaf o ymateb ymhlith y categori 60+. Gellir dehongli hyn dwy ffordd: dyma'r grŵp a drafferthodd i ymateb i'r holiadur neu yn fwy arwyddocaol mae'r ffigur yn adlewyrchiad teg o broffil oedran gwylwyr y sianel. Nodir fod y lefel ymateb ymhlith y rhai o dan 16 yn isel.

Holwam am y defnydd o wasanaeth CLIC sy'n hwyluso edrych ar raglenni a gollwyd neu er mwyn ail-wyllo. Roedd 28 (39%) yn ddefnyddwyr cyson o'r gwasanaeth gyda'r defnydd uchaf ymhlith y categori 60+. Mae hwn yn ffigur calonogol ac yn dangos fod canran sylweddol o'r ymatebwyr yn troi at CLIC i greu patrwm personol o wyllo.


Nesaf rhestrwyd mathau o raglenni gan ofyn i'r ymatebwyr nodi eu hadwaith o fewn y disgrifiadau 'hoffi'n fawr, hoffi, derbynol, dim diddordeb, casau.' Cyfrifwyd y manylion a'u casglu i greu'r graff isod



Pwynt cyffredinol i gychwyn. Mae rhan sylweddol o'r ymateb yn bositif ac yn syrthio o fewn y disgrifiadau: 'hoffi'n fawr, hoffi, neu dderbynol'. I fanylu, Newyddion/materion y dydd sydd ar 'sgôr' uchaf gydag amaeth/cefn gwlad a chyfresi drama (e.e. *Pen Talar*) a digwyddiadau (Eisteddfod, Sioe Fawr) yn dilyn. Mae rhaglenni celfyddydau, chwaraeon ag operâu sebon yn sgorio'n gymharol uchel. Mae'n amlwg fod canran o'r gwylwyr heb ddiddordeb mewn chwaraeon nag operâu sebon ond eraill yn eu gwyllo'n gyson. Mae steil bywyd (*Sioe'r Tj*, *Cyfnueid*, *Doctor Doctor*) yn sgorio'n isel, gyda'r ymateb yn casglu o

fewn y disgrifiadau 'derbynol' neu 'dim diddordeb.'

Wedyn gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi tair rhaglen neu fath o raglen na fyddent byth yn colli a thair na fyddent byth yn gwyllo a hynny o fewn y deuddeg mis diwethaf. Dyma'r wybodaeth



Mae'r ymateb i *Bobl y Cwm* bron yn gyfartal - hanner byth yn methu a hanner byth yn gwyllo. Mae gan y gyfres *Pen Talar* a *Chefn Gwlad/Ffermio* dilyniant cryf ac felly hefyd newyddion a'r gyfres *Teulu*. Ar yr ochr bositif, mae'r dilyniant i *Rygbi* a *Sgorio* yn debyg, er dylid sylwi ar y nifer uchel o ymatebwyr a nododd nad oeddent byth yn gwyllo rhaglenni chwaraeon. Rhyw hanner a hanner hefyd i *Noson Lawen* gyda mwy byth yn gwyllo *Dechrau Canu...* ac *Wedi 7/3* nag sydd byth yn methu'r rhain. Ymateb hollol negyddol i'r ddwy raglen *Cyfnueid* a *Jonathan*.

Yn olaf rhoddwyd y cyfle i'r ymatebwyr gyflwyno sylwadau ychwanegol. Dyma rai ohonynt (heb eu golygu):

- *Gormodedd o ailadrodd, dim digon o gomedi a diffyg dychymyg. Angen rhaglenni ffres*
- *Angen mwy o raglenni i'r rhai rhwng 13 a 18 e.e. 'Mosgito'*
- *Gormod o ailadrodd. Rhaglenni diflas a di-umff*
- *Hoff iawn o 'Cyw' - tynnu sylw at ystod eang o bynciau sy'n diddori'r rhai bach*
- *Angen rhaglen gomedi newydd. Cael gwared o 'Doctor, Doctor.'*
- *Gormod o ail-ddarlledu ffilmiau megis 'Ar y Tracs, Martha Jac a Sianco' a hynny dros gyfnod byr iawn*
- *Angen mwy o raglenni comedi sefyllfa fel 'Teulu'r Mans a C'Mon Midfield'*
- *Hoff o weld gemau lleol Aberystwyth ar bawn Sadwrn. Byddai'n neis gweld cyflwynwyr newydd.*
- *Angen trawsnewid y sianel yn gyfangwbl a newid y sistem gomisiynu sydd ar hyn o bryd yn fonopoli hollol annerbyniol*
- *Dim cyfiau'nhad dros ailddarlledu bellach oberwydd Clic ond mae angen i Clic fod ar gael yn syth*
- *Mae rhai o'r cyfresi drama wedi bod yn wych - 'Compassionate a Teulu.' Mae'n hanfodol ein bod yn gwarchoed y sianel ac yn sicrhau cyllid digonol iddi.*
- *Yn hapus iawn gyda'r arlwy. Dalier ati*
- *Teimlaf fod yr arlwy wedi gwella dros y misoedd diwethaf*
- *Ddim yn hoffi cyfieithiadau o straeon BBC Llundain. Dyw'r rhaglen ddim yn adlewyrchu'r hyn syn digwydd ar draws Cymru'n ddigonol*
- *Gormod o'r un bobol, Gormod o selebs*
- *Mae S4C yn ymdrechu'n galed i ddiwallu diddordebau/chwaeth y gynulleidfa. Ambell i raglen yn taro 12 ac yn well na dim a gynigir yn Saesneg*
- *Tueddiad gan gyflwynwyr i ganu clodydd rhaglenni i'r cymylau er mai cyffredin yn aml yw'r gwirionedd*

ac un arall i offren

*Rhaglenni chwaraeon yn cymryd drosodd Dechrau Canu. Cywilydd!*

Rhaid derbyn bod yr arolwg wedi'i gyfyngu i ardal wledig a bod safbwyntiau aelodau hŷn o'r gymuned yn gryf yn yr ymateb. Serch hynny, i raddau helaeth mae'r canlyniadau'n rhai calonogol i S4C, yn enwedig mewn cyfnod anodd i'r sianel. Bydd *Papur Pawb* yn falch o dderbyn ymateb i'r Arolwg gan S4C a gan ein darllenwyr.

# GAREJ DAVMOR

M.O.T., Gwasanaeth,  
Batris a Theiars

Gellir llogi car, fan neu fws mini  
i'w gyrru eich hun

[www.davmorgarage.co.uk](http://www.davmorgarage.co.uk)

**Ffôn: 01970 832278**

## Gofal Traed Aber

**Ceiropodydd**

**Podiatrydd Cofystredig gan yr H.P.C.**

- Triniaethau ar ewinedd a chyrn
- Llawdriniaeth ar gasewinedd
- Triniaeth/asesiad arbenigol ar draed diabetig
- Gwadnau ac asesiad biomechanyddol

**Triniaeth yn y cartref ar gael**

Galwch Shân Jones neu Richard Ellison

**01970 617269**

4, Y Porth Bach, Aberystwyth, Ceredigion



## Yswiriant, Pensiynau, Buddsoddiadau

Am wasanaeth personol a chyfeillgar, ffoiniwch  
ein swyddfa lleol yn Aberystwyth ar:

**01970 612331**

[www.nfumutual.co.uk/aberystwyth](http://www.nfumutual.co.uk/aberystwyth)



**NFU Mutual**

INSURANCE PENSIONS INVESTMENTS

**We do right by you**

NFU Mutual is The National Farmers Union Mutual Insurance Society Limited (No. 11982). Registered in England. Registered Office: Tiddington Road, Stratford Upon Avon, Warwickshire CV37 7BJ. For security and training purposes, telephone calls may be recorded and monitored.

Argraffu 5-lliw  
a gwasanaeth di-ail:  
holwch Paul am bris  
ar [paul@yloffa.com](mailto:paul@yloffa.com)



**yloffa**

TALYBONT CEREDIGION SY24 5HE

01970 832 304

[yloffa@yloffa.com](mailto:yloffa@yloffa.com)

[www.yloffa.com](http://www.yloffa.com)

## Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Estynnodd y Cadeirydd, y Cyngorydd Gerwyn Jones, groeso cynnes i'r aelodau ar ddechrau'r cyfarfod a gynhaliwyd nos Lun 28 Mawrth.

Adroddodd y Cadeirydd fod yr Is-bwyllgor Tendr Cynnal a Chadw wedi cwrdd i fwrw golwg dros y tri chais a dderbyniwyd. Y cynnig rhataf i'r Cyngor Cymuned, a'r un oedd yn cynnig 'Gwerth Gorau' ym marn yr Is-bwyllgor, oedd un Robert Griffiths, Tynllechwedd Bach, Y Borth. Tair blynedd fydd tymor y tendr.

Yn dilyn sesiwn casglu gwybodaeth cynllun 'Darganfod Dyfi' a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa ar 28 Chwefror, dosbarthwyd copïau o gylchlythyr yn diolch i bawb oedd wedi galw heibio, a phawb oedd wedi cysylltu yn dilyn y sesiwn. Diddorol oedd sylwi bod tri o'r pedwar llun gafodd eu cynnwys yn y cylchlythyr wedi eu cyflwyno gan drigolion Ceulanamaesmawr, a bod dau ohonynt yn dangos adeiladau hanesyddol yn Nhal-y-bont. Cam nesaf y cynllun fydd paratoi eitemau dehongli ar gyfer y llwybrau a ddewiswyd, a hynny ar ffurf taflenni, paneli gwybodaeth, gwaith celf neu lwybrau clyweled.

Mewn ymateb i gŵyn gan y Cyngor, derbyniwyd ateb gan yr heddlu yn adrodd bod perchnogion sawl car a barciwyd ar linellau melyn ar y ffordd fawr wedi derbyn rhybudd eu bod yn parcio mewn mannau peryglus.

Adroddwyd fod cyfarfod o PACT wedi ei gynnal ar 10 Mawrth yn y Neuadd Goffa. Cafwyd adroddiad gan PC Hefin Jones, y Swyddog Plismona Bro, o'r gwaith plismona sy'n cael ei wneud yn yr ardal ar hyn o bryd.

Cafwyd diweddariad gan y Cyngorydd Gerwyn Jones o'r sefyllfa parthed arwyddo'r ddogfennaeth gan aelodau Grŵp Cyswllt Cymunedol Fferm Wynt Nant-y-moch. Adroddodd fod dyddiad cyflwyno'r cais cynllunio gan y datblygwyr wedi ei ohirio am rai misoedd ymhellach. Cyhoeddwyd y cynhelir arddangosfa ymgynghorol yn Neuadd Goffa Tal-y-bont ddydd Mercher 4 Mai o 2 hyd 8 o'r gloch ar fater trosglyddo'r trydan o fferm wynt arfaethedig Nant-y-moch i'r Grid Cenedlaethol.

Adroddwyd fod y Cyngor Sir bellach wedi gosod rhybuddion clir ar wyneb y ffordd o flaen y Llew Du a'r Llew Gwyn yn arwyddo 'Dim Mynediad' i'r briffordd. Hyderir y bydd hyn yn lleihau nifer y gyrwyr sydd, yn ddariwybod iddynt, yn peryglu eu bywydau eu hunain ac eraill ar bwys y Patshyn Glas.

Derbyniwyd gwahoddiad i ymateb i gynllun drafft o'r Strategaeth Cynllun Plant a Phobl Ifanc Ceredigion 2011-14. Cytunodd y Cyngorydd Delyth Ifan i ddarllen y ddogfen ac ymateb ar ran y Cyngor.

Adroddodd y Clerc fod y Cyngor wedi derbyn adroddiad blynyddol y Cwmni Yswiriant ar gyflwr offer y Cae Bach. Nodwyd nifer o eitemau fydd angen sylw yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Cytunwyd i ofyn i'r Cyngor Sir baratoi amcangyfrif o'r gost am wneud y gwaith.

Rhodddwyd ystyriaeth i gais cynllunio i wneud newidiadau mewnol i Westy'r Llew Du. Cytunwyd i anfon gair at yr Awdurdod Cynllunio yn croesawu'r datblygiadau arfaethedig.

Cadarnhawyd gwerth asedau'r Cyngor. Yr unig ychwanegiad i restr yr asedau eleni yw'r hysbysfwrdd cyhoeddus sydd wedi ei archebu ar gyfer Bont-goch. Adroddwyd y gobeithir gosod yr hysbysfwrdd newydd yn ei le yn ystod y mis nesaf.



## CFFI Tal-y-bont

Clybiau Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont, Bro Ddyfi a Trisant fu'n diddanu cynulleidfifa llawn dop yn Neuadd Goffa Tal-y-bont ddechrau mis Mawrth. Cyfle euraidd i drigolion yr ardal i weld tair hanner awr adloniant, gan gynnwys ennillwyr Cymru, Bro Ddyfi a'i perfformiad 'Yn y Sŵ!'

Well i chi eistedd lawr i ddarllen y paragraff nesa' 'ma, mae aelodau o Glwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont yn medru bod yn dawel!! Dangoswyd hyn pan ddaeth Howard Jones i ddysgu arwyddiaith, gan ddangos iaith sylfaenol gyda brwdfrydedd.

Eleni gwelwyd diwrnod maes y Sir yn newid lleoliad i Gastell Newydd Emllyn, a daeth lwc i Glwb Tal-y-bont efallai o ganlyniad! Canlyniad cynnar oedd y ffensio a gynhaliwyd yr wythnos flaenorol, lle daeth y tîm yn 2il yn ogystal a'r gystadleuaeth Diogelwch ac Effeithlonrwydd a ddaeth yn 4ydd. Gareth Ynyseidiol a Rhydian Tynant yn cipio'r

wobr gyntaf yn Sialens ATV. Yna'r cystadlaethau barnu stoc; tîm barnu hyn 2il a Geraint Cerrigcarannau'n ennill Stocmon hŷn, gyda Aled Llŷr yn 2il. Y tîm barnu iau yn fuddugol gyda Dewi Tyngraig yn dod yn 3ydd.

Canlyniad gwyach ar ddiwedd y dydd oedd dod yn 2il drwy'r cystadlaethau i gyd. Bydd yr enillwyr yn mynd ymlaen i gynrychioli Ceredigion yn Niwrnod Maes Cymru yn y Trallwng.

Gyda'r Rali ar y gorwel ddiwedd mis Mai bydd rhai cyn-aelodau siŵr o gael galwad ffôn cyn hir i ddechrau paratoi a helpu.



Gwion Tanllan yn trimio oen yn y Diwrnod Maes.

Pan weli di'r arwydd hwn defnyddia'r Gymraeg

cicymraeg.com

Nodir gan Lywodraeth Cymuned Cymru Sponsored by Welsh Assembly Government

BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD

# CHWARAEON



## Hoci

Llongyfarchiadau i dîm hoci blwyddyn 9 Ysgol Penweddig ar gyraedd rownd derfynol i Ysgolion Cymru yn Abertawe yn ddiweddar. Roedd chwech o ferched yr ardal yn y garfan sef Hannah Evans, Nia Jones, Alwenna Jenkins, Catrin Hughes, Sara Jenkins a Gwenno Evans. Llongyfarchiadau hefyd i Catrin, Nia a Gwenno a fu'n chwarae dros Geredigion yn ystod y tymor.




## Clwb Pêl-droed Ieuentid Talybont a'r Cylch Trip Cymru v Lloegr

Methu'n lan a chysgu nos Wener ac yn llawn cyffro i weld y gêm dydd Sadwrn. Am hanner awr wedi naw gadawodd tri bws Tal-y-bont am Gaerdydd gyda phawb yn gwisgo coch. Cyrraedd Pontabram am 11.30 yn barod i fwyta tocyn. Cyfle i fynd ffwrdd o'r bws i eistedd ar y borfa. Cyrraedd Caerdydd am 1.30 y prynhawn ac i mewn i Stadiwm y Mileniwm wrth gat 5. Roedd Spike y ddraig, mascot newydd Cymru yn cerdded o amgylch y stadiwm.

Dechreuodd y gêm am 3 o'r gloch gyda chanu'r anthem genedlaethol. Roeddwn ni methu clywed anthem Lloegr oherwydd y sŵn bŵan.

Gyda Chymru wedi colli o 2 gôl i 0, roedd pawb wedi eu siomi, a nôl a ni i'r bws yn barod am swper yn Llanelli. Cafwyd bwyd da a chael amser i chwarae yn y Fun factory gyda ffrindiau cyn mynd adre.

*Dylan Benjamin*



*Ieuan a Dylan*

## Talybont v Aberdyfi



*Cystadleuaeth Cwpan y Gynghrair David Griffiths yn penio cic cornel yn glir.*

Aethom i gyd i weld gêm bêl-droed Cymru v Lloegr yn Stadiwm y Mileniwm a chael diwrnod wrth ein bodd. Roeddwn wedi fy nghyffroi o feddwl am weld rhai o fy hoff chwaraewyr, Rooney, Bellamy a Ramsey ond roeddwn yn siomedig o golli 2-0. Gwelais Nathan Cleverley hefyd oedd yn wych.

*Ieuan Putt*

## Twrnament Dartiau Cymdeithas Cae'r Odyn Galch

Enillwyr Cwpan Papur Pawb oedd Mark Ebenezzer a Julian Thomas gyda Sam Ebenezzer a Ceri Jones yn ail.

Mae Papur Pawb yn awyddus i gynnwys newyddion am hynt a helynt unigolion neu dimau o'r ardal sy'n cystadlu yn y byd chwaraeon. Anfonwch yr hanesion at Gwyn Jenkins drwy ebost ([maesgwyn@fsmail.net](mailto:maesgwyn@fsmail.net)) neu ffoniwch ef ar 832560.



**Cawod Defaid Symudol ARTHUR MORGAN**  
Dosbarthwn a gwareidwn 'dip defaid'

Pencefnw, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion  
01239 615085 - 07721 786292

**Salon Leri**  
Pob agwedd o drin gwallt gan Richard  
Pedicure a Manicure  
10am-7pm  
Llun-Gwener  
(01970) 832 674